# SL(5)647 - Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) (Diwygio) (Coronafeirws) 2020

## Cefndir a Diben

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg (Cymru) 2019 ("Rheoliadau 2019") a wnaeth ddarpariaeth mewn perthynas â:

- ffurf a chynnwys y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ("y Cynllun");
- cyfnod para'r Cynllun;
- cyflwyno'r Cynllun i Weinidogion Cymru;
- cymeradwyo'r Cynllun;
- trefniadau ar gyfer adolygu'r Cynllun;
- ymgynghori ar Gynllun drafft;
- amseriad y Cynllun a'r ffordd y caiff ei gyhoeddi;
- dirymu, gydag arbedion, Rheoliadau Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg ac Asesu'r Galw am Addysg Cyfrwng Cymraeg (Cymru) 2013 ("Rheoliadau 2013").

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio tair o'r amserlenni yn Rheoliadau 2019:

- bydd cyfnod para'r Cynllun 10 mlynedd yn rhedeg rhwng 1 Medi 2022 a 31 Awst 2032 yn lle rhwng 1 Medi 2021 a 31 Awst 2031;
- y dyddiad y dylid cyflwyno'r cynllun deng mlynedd cyntaf i Weinidogion Cymru ei ystyried, sef 31 Ionawr 2022 yn lle 31 Ionawr 2021, ac
- y dyddiad y mae'n rhaid cyflwyno'r adroddiad adolygu blynyddol cyntaf i Weinidogion Cymru, sef 31 Gorffennaf 2023 yn lle 31 Gorffennaf 2022.

Gwneir y newidiadau hyn mewn ymateb i bandemig COVID-19 er mwyn galluogi awdurdodau addysg lleol i flaenoriaethu'r cymorth maent yn ei roi i ysgolion. Bydd cynlluniau a gymeradwywyd o dan Reoliadau 2013 yn parhau'n weithredol nes y bydd Cynllun deng mlynedd cyntaf awdurdod lleol, o dan y Rheoliadau hyn, yn weithredol.

## Gweithdrefn

Negyddol

## Materion technegol: craffu

Ni nodir unrhyw bwyntiau i gyflwyno adroddiad arnynt o dan Reol Sefydlog 21.2 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

## Rhinweddau: craffu

Nodwyd y pwynt a ganlyn i gyflwyno adroddiad arno o dan Reol Sefydlog 21.3 mewn perthynas â'r offeryn hwn.

**1. Rheol Sefydlog 21.3(ii) – ei fod o bwysigrwydd gwleidyddol neu gyfreithiol neu ei fod yn codi materion polisi cyhoeddus sy'n debyg o fod o ddiddordeb i'r Senedd.**

Nodwn na fu unrhyw ymgynghori ffurfiol ar y Rheoliadau hyn. Yn benodol, nodwn y paragraffau a ganlyn yn y Memorandwm Esboniadol:

> *"Caiff y diwygiadau hyn eu gwneud mewn ymateb i bandemig COVID-19. Dim ond ers pedwar mis yr oedd Rheoliadau 2019 wedi bod yn weithredol pan darodd y pandemig. Bu Rheoliadau 2019 yn destun ymgynghoriad 15 wythnos rhwng 30 Mai a 13 Medi 2019, gan gynnwys pedwar digwyddiad ymgysylltu rhanbarthol a fynychwyd gan tua 100 o randdeiliaid yn ogystal â thrafodaeth fforwm ieuenctid a gynhaliwyd gan yr Urdd.*
>
> *Oherwydd natur y gwelliant sy'n cael ei gynnig, sydd ond yn effeithio ar yr amserlen ar gyfer cyflwyno a dechrau cylch nesaf y Cynlluniau Strategol Cymraeg mewn Addysg a dim darpariaeth arall yn y rheoliadau, ni wnaed ymgynghoriad ychwanegol nac asesiad effaith integredig. Fodd bynnag, ystyriwyd barn Cyfarwyddwyr Addysg yr awdurdodau lleol, a gasglwyd drwy Gymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru (CCAC), fel rhan o'r broses o wneud penderfyniadau. Yn eu plith roedd yr amser a neilltuwyd i lunio Cynllun drafft mewn ymgynghoriad â rhanddeiliaid allweddol ac ymgynghori ar Gynllun drafft ar adeg pan fyddai'r holl adnoddau addysg sydd ar gael yn cael eu hatgyfeirio er mwyn darparu ymatebion lleol i COVID-19."*

## Y goblygiadau yn sgil ymadael â'r Undeb Ewropeaidd

Dim

## Ymateb Llywodraeth Cymru

Nid oes angen ymateb gan Lywodraeth Cymru.

**Cynghorwyr Cyfreithiol**
**Y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad**
**10 Tachwedd 2020**